



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Gylch Chwarae Aber-porth (Cymdeithas Cylchoedd
Chwarae Cyn-ysgol Cymru)**

**Plas Howni
Aber-porth
Aberteifi
Ceredigion
SA43 2DA**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© **Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Dyddiad cyhoeddi: 11/01/2019

Cyd-destun

Mae Cylch Chwarae Aber-porth yn lleoliad dwyieithog yn awdurdod lleol Ceredigion. Mae'r lleoliad wedi ei gofrestru ar gyfer dau ddeg un o blant rhwng dwy a phedair oed. Mae'n cynnig sesiynau addysg y blynyddoedd cynnar o 9am tan 12:00pm yn ystod y tymor ysgol, am bum niwrnod yr wythnos. Adeg yr arolygiad, roedd naw o blant yn derbyn addysg gynnar a ariennir.

Mae'r lleoliad wedi nodi bod gan ychydig iawn o blant anghenion dysgu ychwanegol. Mae ychydig iawn o blant yn siarad Cymraeg gartref ac mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ychydig iawn o blant.

Mae pedwar aelod o staff amser llawn a dau aelod o staff rhan-amser, gan gynnwys dau arweinydd lleoliad amser llawn. Dechreuodd un arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 1985, ac un ym mis Medi 2017.

Arolygodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) y lleoliad ym mis Gorffennaf 2018 ac ym mis Medi 2015 yr arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Rhagorol
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn rhagorol oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cryf iawn o'u manau cychwyn, yn enwedig o ran datblygu eu medrau Cymraeg
- Mae gan y rhan fwyaf o blant agweddau rhagorol at ddysgu, ac yn dangos eu bod yn mwynhau dysgu, gan ddatblygu medrau annibynnol cryf ar draws pob maes dysgu
- Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau cyffrous, ysgogol a hwyliog ar gyfer plant, sy'n datblygu eu medrau'n raddol
- Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd hynod greadigol o syniadau plant fel rhan o gynllunio'r cwricwlwm
- Mae ymarferwyr yn hynod fedrus ac mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o ran pryd i ymyrryd yn nysgu'r plant a phryd i ganiatáu iddynt arbrofi â'u syniadau eu hunain
- Mae pob un o'r ymarferwyr yn fodolau iaith da iawn ac yn datblygu dealltwriaeth a defnydd y plant o'r Gymraeg yn eithriadol o dda
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn hynod effeithiol ac mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant yn dda yn eu dysgu a'u datblygiad corfforol
- Mae'n darparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol iawn lle mae ymarferwyr yn adnabod pob un o'r plant yn dda ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn rhagorol oherwydd:

- Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain a'r plant, gyda gweledigaeth glir ar gyfer codi safonau a chynnig darpariaeth hynod effeithiol
- Mae gan y lleoliad weithdrefnau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad y staff
- Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn i'r lleoliad ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o'i gryfderau a'r meysydd i'w gwella
- Mae gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn gadarn ac yn arwain at welliant parhaus

- Mae ystod eang o bartneriaethau hynod effeithiol, gan gynnwys gyda rhieni, lleoliadau eraill a'r gymuned leol
- Mae ymarferwyr yn elwa ar ystod eang o hyfforddiant buddiol sy'n gwella eu perfformiad eu hunain ac yn cael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth, darpariaeth a safonau plant

Argymhellion

A1 Cynllunio'n systematig i ddatblygu medrau datrys problemau plant

A2 Ystyried hyd a threfniadaeth sesiynau grŵp mawr i wneud yn siŵr eu bod yn cynnal diddordeb pob un o'r plant

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Rhagorol

Safonau: Rhagorol

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cryf iawn o'u mannau cychwyn, yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a datblygiad corfforol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac ar oedolion yn ystod sesiynau a gweithgareddau grŵp. Maent yn siarad yn glir mewn brawddegau llawn ac yn trafod senarios cyfarwydd gyda brwdfrydedd a hyder, er enghraifft wrth ddweud wrth y plant eraill am sut gwnaethant gadw'n ddiogel gan ddefnyddio ffyn gwreichion ar Noson Tân Gwyllt. Mae'r rhan fwyaf o'r plant hŷn yn defnyddio ystod helaeth o eirfa wrth iddynt chwarae, er enghraifft wrth ddweud wrth oedolyn, 'fe gewch chi baned o de, ond mi fydd yn ddrud iawn!' Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu dealltwriaeth ragorol o'r Gymraeg. Mae bron pob un ohonynt yn dilyn cyfarwyddiadau a roddir yn Gymraeg yn hynod effeithiol ac mae llawer ohonynt yn defnyddio ymadroddion a geiriau Cymraeg syml yn ystod gweithgareddau grŵp ac wrth weithio'n annibynnol yn hyderus a heb anogaeth gan oedolion. Enghraifft ragorol o hyn yw pan fyddant yn disgrifio sut mae cymeriadau'n teimlo mewn gêm gan ddefnyddio brawddegau llawn. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau storïau ac mae llawer ohonynt yn eistedd am gyfnodau estynedig wrth wrando arnynt. Mae llawer ohonynt yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol yn y gornel ddarllen, gan droi tudalennau'n gywir a defnyddio'r lluniau i ail-ddweud y stori gyda mynegiant. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn adnabod eu henwau eu hunain ac enwau plant eraill wrth hunangofrestru ac yn cofnodi sut maent yn teimlo ar arddangosfa. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dewis gweithgareddau creu marciau yn annibynnol fel rhan o'u chwarae. Maent yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar, fel gwneud symbolau i gynrychioli geiriau wrth ysgrifennu mewn dyddiadur. Mae llawer o blant hŷn yn dechrau ysgrifennu eu henwau eu hunain yn llwyddiannus.

Mae gan y rhan fwyaf o'r plant ddealltwriaeth dda iawn o rif ac yn cyfrif gwrthrychau i 10 yn hyderus yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn didoli gwrthrychau yn grwpiau yn llwyddiannus ac yn cyfrif y nifer ym mhob grŵp gyda chywirdeb. Er enghraifft, mae plant yn chwilio am wahanol anifeiliaid sydd wedi eu cuddio mewn llwch llif ac yn eu didoli yn unol â'r marciau ar eu cotiau. Mae mwyafrif ohonynt yn nodi'r grŵp mwyaf a'r grŵp lleiaf.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio ystod o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus. Er enghraifft, maent yn llywio rheolydd o bell car o gwmpas yr ystafell, gan ei symud ymlaen, yn ôl ac o un ochr i'r llall. Mae llawer ohonynt yn

datblygu dealltwriaeth effeithiol o ddefnyddio TGCh mewn bywyd bob dydd, er enghraifft wrth ddefnyddio cerdyn credyd a rhif pin i dalu am driniaeth ar gyfer anifail anwes yn y filfeddygfa chwarae rôl. Mae gan lawer o blant ddealltwriaeth dda iawn o sut i greu lluniau ar gyfrifiadur llechen ac yn eu hargraffu â'r cymorth lleiaf.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau corfforol yn eithriadol o dda. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol bob dydd fel ymestyn fel jiráf a chleician dannedd fel crocodeil. Defnyddiant amrywiaeth o offer yn fedrus i ddatblygu eu medrau balansio, er enghraifft wrth eistedd ar bêl yn y gornel datblygiad corfforol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus iawn, er enghraifft wrth beintio lluniau o'u hanifeiliaid anwes. Mae llawer ohonynt yn datblygu'r gallu i ddatrys problemau'n dda, er enghraifft wrth ddefnyddio brics o'r gornel adeiladu i greu ffordd ar gyfer car â rheolydd o bell.

Lles: Rhagorol

Mae bron pob un o'r plant yn mynd i mewn i'r lleoliad yn hyderus ac yn sgwrsio ag ymwelwyr a staff yn frwdfrydig. Maent yn ymdawelu'n gyflym ac yn mynd ati i gwblhau eu gweithgareddau bob dydd heb anogaeth. Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn dangos cwrteisi a pharch at ei gilydd. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, maent yn arllwys eu diodydd eu hunain heb gymorth ac yn gofyn i blant eraill basio'r jwg yn gwrtais. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn aros eu tro yn amyneddgar os bydd plentyn arall yn defnyddio darn o offer y maen nhw eisiau ei ddefnyddio ac maent yn rhannu adnoddau'n dda.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos agweddau rhagorol a mwynhad yn eu dysgu. Maent yn cynnal diddordeb ar eu tasgau am gyfnodau cynaledig. Maent yn dangos lefelau uchel o ymgysylltu ac yn eithriadol o hyderus wrth wneud dewisiadau wrth iddynt symud rhwng tasgau dysgu sydd wedi'u dewis gan oedolion a thasgau dysgu wedi'u harwain gan blant. Mae eu lefel uchel o annibyniaeth yn nodwedd ragorol. Er enghraifft, mae plant yn dewis o blith ystod eang o adnoddau yn yr ardal greadigol yn annibynnol i ail-greu arddangosfa tân gwyllt. Dangosant wydnwch pan na fydd rhywbeth yn gweithio am y tro cyntaf ac maent yn dyfalbarhau i geisio goresgyn y broblem. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cyfraniadau effeithiol iawn at gynllunio sesiynau wrth rannu eu syniadau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ddysgu amdano.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymgymryd â chyfrifoldebau yn gydwybodol. Maent yn cymryd eu tro i fod yn 'fonitor' ac yn arwain sesiynau amser cylch ar gyfer plant eraill yn hyderus. Er enghraifft, mae plant yn arwain y drefn ddyddiol yn Gymraeg trwy ddefnyddio brawddegau llawn i ofyn i blant eraill adnabod eu henw a disgrifio'r tywydd. Mae hon yn nodwedd ragorol yn y lleoliad. Mae bron pob un o'r plant yn cymryd cyfrifoldeb am dacluso ardaloedd dysgu ar ddiwedd y sesiwn a rhoi offer i'w gadw.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Rhagorol

Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o weithgareddau ysgogol a difyr ar draws holl feysydd dysgu'r cyfnod sylfaen. Er bod lle cyfyngedig y tu allan, mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau gwerth chweil rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau yn yr awyr agored trwy ymweld â'r traeth lleol a defnyddio'r cae chwaraeon lleol.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd hynod greadigol o syniadau plant wrth gynllunio testunau a gweithgareddau wythnosol. Maent yn gweithio'n agos gyda'r plant i amlinellu eu syniadau ar ddechrau pob testun, sy'n eu cymell i ddysgu'n hynod effeithiol. Er enghraifft, pan ofynnodd y plant o ble daw mêl, trefnodd ymarferwyr ymweld â fferm fêl i weld cychod gwenyn yn gweithio a'r broses gwneud mêl. Fe wnaethant ddatblygu hyn ymhellach trwy gynllunio gweithgareddau yn dilyn yr ymweliad fel pobi cacen fêl a dysgu mwy am wenyn. Mae hyn yn gwneud dysgu'n hwyl ac yn ysgogol i blant mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

Mae cynllunio yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr rheolaidd i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn systematig ar draws yr holl feysydd dysgu. Er enghraifft, rhoddir cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar ym mhob maes dysgu, fel cofnodi apwyntiadau yn y practis milfeddygol. Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau o ansawdd uchel i blant ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol, er enghraifft yn ystod gweithgareddau symud bob dydd. Ceir cyfleoedd buddiol i blant arbrofi a datrys problemau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i roi doliau yn ôl yn nhrefn eu maint. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn cynllunio i ddatblygu medrau datrys problemau plant yn ddigon systematig.

Mae ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth plant o'r Gymraeg yn eithriadol o dda. Defnyddiant ystod eang o ganeuon yn llwyddiannus a dangosant batrymau iaith bob dydd fel rhan o'r holl weithgareddau. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn meddu ar ddealltwriaeth ragorol o'r Gymraeg ac yn defnyddio geiriau ac ymadroddion fel rhan o weithgareddau bob dydd ac wrth iddynt chwarae. Rhoddir cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru, er enghraifft gyda chyfleoedd rheolaidd i blant glywed chwedlau gwerin, fel storïau Santes Melangell a Morwenna.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd hynod effeithiol o ymweliadau ac ymwelwyr i wella'r cwricwlwm a dysgu'r plant. Enghraifft effeithiol o hyn yw ymweliadau rheolaidd â'r traeth lleol lle mae achubwyr bywyd yn addysgu'r plant am sut i gadw'n ddiogel.

Addysgu: Rhagorol

Mae gan bob ymarferwr ddisgwyliadau uchel o blant. Maent yn cynllunio gweithgareddau cyffrous ac ysgogol sy'n hwyl ac yn ennyn diddordeb plant yn dda. Nodwedd ragorol o'r addysgu yw'r modd y mae pob ymarferwr yn gwneud dysgu'n hwyl a chyffrous i'r holl blant. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth hynod effeithiol o athroniaeth y cyfnod sylfaen a sut mae plant yn dysgu. Maent yn hynod fedrus ac yn meddu ar ddealltwriaeth ragorol o ran pryd i ymyrryd yn nysgu'r plant a phryd i ganiatáu iddynt arbrofi â'u syniadau eu hunain. Maent yn addasu gweithgareddau'n fedrus i fodloni anghenion pob un o'r plant. Maent yn arsylwi plant yn ofalus ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i addasu gweithgareddau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn arsylwi plentyn iau yn gwyllo gweithgaredd yn astud. Maent yn annog y plentyn i ymuno a chwblhau'r gweithgaredd. O ganlyniad, mae'r plentyn yn cwblhau'r dasg yn hyderus ac yn dangos balchder amlwg yn ei gyflawniad. Mae gan bron bob un o'r ymarferwyr fedrau holi hynod effeithiol sy'n annog plant i feddwl drostynt eu hunain.

Mae'r holl ymarferwyr yn fodolau iaith rhagorol. Mae eu defnydd o'r Gymraeg a modelu patrymau Cymraeg cywir yn gryfder yn y lleoliad.

Un o'r cryfderau mewn addysgu yw'r berthynas agos rhwng pob un o'r ymarferwyr a'r plant. Maent yn rheoli ymddygiad yn gadarn ond yn sensitif ac yn gadarnhaol. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd rhagorol o wahanol strategaethau i ganmol ymddygiad da fel gwobrwyo gwaith â 'phawen lawen'. Mae hyn yn arwain at amgylchedd dysgu cefnogol lle mae plant yn mwynhau arbrofi a darganfod pethau newydd drostynt eu hunain. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da iawn o dasgau â ffocws a sesiynau grŵp mawr i ddatblygu medrau plant. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae sesiynau grŵp yn rhy hir, ac o ganlyniad, mae ychydig o blant yn rhoi'r gorau i ganolbwytio.

Yn dilyn argymhellion o'r arolygiad blaenorol, mae ymarferwyr wedi datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer arsylwi ac asesu plant. Trwy arsylwadau rheolaidd, mae ymarferwyr yn ennill dealltwriaeth gref o'r hyn y gall plant ei wneud, a'r hyn y mae angen iddynt ei ddatblygu. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda iawn ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r plant. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda rhieni am gynnydd eu plant trwy adroddiadau a defnyddio llyfrau cyswllt.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel a chroesawgar ar gyfer pob un o'r plant. Mae ymarferwyr yn gofalu'n eithriadol o dda am blant o'r adeg y maent yn cyrraedd y lleoliad ac yn gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn bodloni eu hanghenion unigol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn dda iawn. Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau dyddiol hynod effeithiol i hyrwyddo datblygiad corfforol plant. Mae'r gweithgareddau hyn yn sicrhau bod plant yn weithgar bob dydd. Caiff hyn ei wella â sesiynau wythnosol ar y cae chwaraeon lleol lle mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau llwyddiannus iawn i blant ddatblygu medrau fel ymwybyddiaeth ofodol a medrau pêl. Mae amser byrbryd yn brofiad tawel sy'n datblygu medrau cymdeithasol a moesol plant yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i ddod o hyd i'w byrbryd eu hunain, arllwys eu diodydd eu hunain a bod yn gwrtais at eu cyfoedion wrth ofyn i blant eraill basio jwg o laeth neu ddŵr iddynt.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu hymwybyddiaeth o deimladau pobl eraill. Enghraifft effeithiol o hyn yw pan fydd plant yn cofnodi a thrafod eu teimladau ar fwrdd bob dydd ac yn esbonio pam maent yn teimlo felly. Mae hyn yn cefnogi datblygiad emosiynol a moesol plant yn effeithiol.

Mae cyfleoedd hynod effeithiol i ddisgyblion ymestyn eu datblygiad ysbrydol a diwylliannol. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn defnyddio profiadau bywyd go iawn i ddatblygu synnwyr plant o barchedig ofn a rhyfeddod mewn ffordd ystyrlon, fel trefnu i blant arsylwi gwenyn yn y broses gwneud mêl. Mae cyfleoedd ymarferol i blant ddysgu am gynaliadwyedd pan fyddant yn ailgylchu papur a bwyd o'r lleoliad, yn ogystal â chynorthwyo â chodi sbwriel o gwmpas y gymuned leol.

Mae'r trefniadau ar gyfer cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn hynod effeithiol. Mae ymarferwyr wedi derbyn ystod eang o hyfforddiant sy'n eu galluogi i adnabod anghenion plant yn gynnar a deall sut i fanteisio ar gymorth arbenigol yn ôl yr angen. Ceir cysylltiadau sefydledig â gwasanaethau cymorth proffesiynol i ddarparu cymorth arbenigol i blant pan fydd angen. Mae ansawdd cynlluniau chwarae unigol yn dda ac mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn y rhain yn fedrus i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant. Mae staff yn darparu cymorth eithriadol o dda ar gyfer plant sydd angen cymorth ychwanegol â'u hanghenion dysgu a'u hanghenion corfforol.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan y lleoliad awyrgylch croesawgar a chynhwysol iawn. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn sicrhau eu bod yn cael yr un cyfle i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau. O ganlyniad, mae plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn hapus a hyderus yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am wahanol ddiwylliannau a thraddodiadau trwy ddiwrnodau ac wythnosau thema rheolaidd, er enghraifft wrth ddysgu am Awstralia, Yr Alban a gwledydd yn Affrica.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd dysgu glân a bywiog, sy'n cael ei gynnal yn dda ar gyfer plant. Mae ystod dda iawn o adnoddau o ansawdd uchel ar gael, sydd o fewn

cyrraedd hawdd i'r plant. Mae plant yn casglu a storio adnoddau yn ôl yr angen trwy gydol y sesiwn ac mae hyn yn datblygu eu medrau annibynnol yn dda.

Nid oes mynediad uniongyrchol at yr amgylchedd dysgu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardal leol fel y traeth a'r cae chwaraeon lleol i gynllunio gweithgareddau sy'n datblygu medrau disgyblion yn yr awyr agored yn effeithiol. Hefyd, gwnânt ddefnydd da iawn o'r gymuned leol i wella dysgu'r plant, er enghraifft wrth ymweld â'r caffi lleol i ddatblygu dealltwriaeth plant o ddefnyddio arian.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, ymarferwyr eraill a phlant. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad sy'n canolbwyntio ar godi safonau a chynnig darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer plant mewn amgylchedd dysgu cynhwysol a diogel. Mae pob un o'r ymarferwyr yn rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol, mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain ac maent yn gweithio'n ddiwyd i ddarparu gweithgareddau cyffrous a difyr sy'n hwyl ac yn bodloni anghenion pob un o'r plant.

Ceir ethos cryf iawn o waith tîm ymhlith arweinwyr ac ymarferwyr. Mae gan bob un o'r staff swydd-ddisgrifiadau clir iawn ac maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n eithriadol o dda. Mae hyn yn amlwg yn y ffordd y cynhelir gweithgareddau bob dydd yn esmwyth, lle mae staff yn dangos ymagwedd hyblyg at unrhyw faterion sy'n codi yn ystod y sesiwn. Mae ymarferwyr yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella eu perfformiad ac mae arweinwyr yn grymuso staff i ddatblygu eu rolau arwain yn y lleoliad yn llwyddiannus.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad staff trwy oruchwylio a gwerthusiadau rheolaidd. Mae ymarferwyr yn hynod fyfyrion yn glŷn â'u perfformiad ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o'u cryfderau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw da iawn i ddatblygu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Enghraifft ragorol o hyn yw'r modd y maent yn cynllunio'n strategol i ddatblygu medrau Cymraeg plant a staff.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn i'r lleoliad. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella. Maent yn rhagweithiol iawn yn codi arian ychwanegol defnyddiol ac yn herio arweinwyr i wneud gwelliannau buddiol i'r ddarpariaeth.

Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae gan y lleoliad weithdrefnau sefydledig a chadarn ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant sydd wedi arwain yn gyson at wella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn y lleoliad.

Mae gan bob aelod o staff rôl annatod mewn hunanarfarnu'r lleoliad ac mae ganddynt ddealltwriaeth gref iawn o'i gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn defnyddio ystod eang o wybodaeth i arfarnu effaith yr arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth ar safonau plant. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth o asesiadau, cyfraniadau staff ac arsylwadau rheolaidd o blant. Mae ymarferwyr yn casglu barn a syniadau gan blant yn llwyddiannus am yr hyn yr hoffent ei ddysgu, ac yn gweithredu yn unol ag awgrymiadau yn gyflym. Mae hyn yn sicrhau bod gan blant lais cryf mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu dysgu. Mae arweinwyr yn casglu barn rhieni a gofalwyr yn effeithiol trwy holiaduron a llyfrau cyswllt y cartref i'r lleoliad. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i wneud gwelliannau, fel ailgyflwyno nosweithiau rhieni mwy ffurfiol.

Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth dda iawn i adroddiadau gan arolygiaethau i wella eu harfer. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd gwerthfawr o gyngor gan yr athrawes ymgynghorol a chymdeithas broffesiynol i wella arfer. Er enghraifft, yn dilyn yr argymhellion o'r arolygiad blaenorol, bu arweinwyr yn gweithio gyda'r athrawes ymgynghorol i ddatblygu gweithdrefnau asesu trylwyr. O ganlyniad, maent bellach yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau'n dda iawn i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

Ceir cysylltiadau agos rhwng gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllun datblygu'r lleoliad. Mae'r cynllun datblygu yn amlinellu'n glir yr hyn y mae'r lleoliad eisiau ei gyflawni a'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd er mwyn gwneud i hyn ddigwydd. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn unol â'r cynllun hwn yn rheolaidd, ac yn arfarnu effaith unrhyw fentrau newydd ar safonau plant yn drylwyr.

Mae gan y lleoliad hanes cryf o wneud gwelliannau cynaliadwy. Er enghraifft, mae'r gwaith ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg wedi sicrhau bod staff yn hyderus yn eu medrau Cymraeg ac yn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel i blant. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd rhagorol o ran defnyddio'r Gymraeg bob dydd wrth iddynt chwarae.

Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae gan y lleoliad bartneriaethau sefydledig a hynod effeithiol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddeilliannau a lles plant. Mae gan y lleoliad bartneriaethau eithriadol o gryf gyda rhieni, sy'n gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan y lleoliad. Enghraifft ragorol o hyn yw'r defnydd o lyfrau cyswllt i gyfnewid gwybodaeth reolaidd am y plant. Mae hyn yn galluogi rhieni a'r lleoliad i ddelio ag unrhyw broblemau sy'n codi yn brydlon. Mae ymarferwyr yn diweddarau'r bwrdd gwybodaeth yn y cyntedd yn wythnosol ac yn hysbysu rhieni am yr hyn y mae'r plant yn ei ddysgu ac unrhyw eirfa newydd y maent wedi ei chyflwyno. Mae rhieni'n gweld y wybodaeth hon yn eithriadol o ddefnyddiol wrth helpu eu plant gartref.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau hynod effeithiol gyda lleoliadau eraill nas cynhelir a'r ysgol gynradd leol. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn gweithio'n agos â lleoliad arall nas cynhelir ac ysgol gynradd leol i adolygu a gwella trefniadau pontio. Mae'r arweinydd wedi gweithio gydag arweinwyr lleoliad arall ac arweinydd y cyfnod sylfaen yn yr ysgol i greu taflen i gynorthwyo'r cyfnod pontio. Rhannwyd y cynllun pontio a'r daflen fel enghraifft o arfer dda ar draws lleoliadau ac ysgolion eraill yn yr awdurdod lleol.

Mae gan arweinwyr bartneriaeth gref ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a chymdeithas broffesiynol. Maent yn gweithio'n agos gyda nhw i ddatblygu meysydd darpariaeth ac arweinyddiaeth, fel sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau yn adlewyrchu rheoliadau presennol ac arfer dda.

Mae gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau cryf â'r gymuned leol. Mae'r rhain yn gwella'r cwricwlwm yn eithriadol o dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau plant. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn gweithio gyda busnesau lleol fel y fferyllfa a'r archfarchnad leol i addysgu'r plant am rolau yn y gymuned. Mae'r lleoliad yn rhagweithiol o ran sicrhau bod gan y plant ran annatod yn eu cymuned. Er enghraifft, maent yn cynnal cyngerdd Nadolig ar y cyd sy'n agored i'r gymuned, gyda lleoliad arall. O ganlyniad, mae plant yn ymgymryd â rôl weithredol yn eu cymuned.

Rheoli adnoddau: Rhagorol

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da iawn o staffio ac adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu yn dda. Mae gan y lleoliad lefel dda o staffio ac mae arweinwyr yn defnyddio staff yn dda i gyflwyno profiadau dysgu o ansawdd uchel i blant. Trwy weithdrefnau rheoli perfformiad trylwyr, mae arweinwyr yn nodi anghenion hyfforddi'n dda iawn ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd hyfforddi i bob un o'r staff. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar berfformiad staff, ansawdd y ddarpariaeth a safonau plant. Er enghraifft, mae staff wedi defnyddio hyfforddiant lleferydd ac iaith i adnabod anghenion plant, ac addasu gweithgareddau ar eu cyfer yn unol â'u cynlluniau addysg unigol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y plant hyn.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o'r adnoddau ariannol cyfyngedig sydd ar gael iddynt er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Er enghraifft, yn dilyn prosesau hunanarfarnu, cydnabu'r lleoliad nad oedd plant yn manteisio ar yr ardal greadigol. Fe wnaethant flaenoriaethu cyllid yn effeithiol i brynu mwy o adnoddau er mwyn gwneud yr ardal yn fwy diddorol a hygyrch i blant. O ganlyniad, mae mwy o blant yn defnyddio'r ardal ac yn gwneud dewisiadau pwrpasol ynglŷn â'u dysgu. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau creadigol plant. Mae'r lleoliad wrthi'n ffilmio'r ddarpariaeth hon i rannu'r arfer â lleoliadau eraill yn yr awdurdod lleol.

Yn sgil y safonau y mae plant yn eu cyflawni a'r addysgu a'r arweinyddiaeth hynod effeithiol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth rhagorol am arian.

Rhestr termau

AGC	Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn is-adran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg